ENNILL CYFLOG WRTH ASTUDIO GYDA'R BRIFYSGOL AGORED...

# Astudiaeth Achos **Beth Linton**




**Sylweddololdd Beth, cerddor o Fagwyr, mai'r un peth roedd hi'n ei garu yn fwy na cherddoriaeth a pherfformio oedd rhannu ei brwdfrydedd a'i gwybodaeth gydag eraill a helpu pobl ifanc i ddysgu pethau newydd. Diolch i'r opsiynau hyfforddi athrawon hyblyg newydd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, trodd ei breuddwyd yn realiti.**

"Ers graddio o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru dros ugain mlynedd yn ôl, dwi wedi bod yn gweithio mewn lleoliad addysgol fel rhan o Wasanaeth Cerddoriaeth fy awdurdod lleol. Dwi wedi addysgu offerynnau chwythbrennau i blant a phobl ifanc o oedran ysgol gynradd hyd at y Chweched Dosbarth – ffliwt, sacsoffon, obo, ond fy ffefryn yw'r clarinét.

"Dros y blynyddoedd, dechreuais sylweddoli fwyfwy mai'r hyn roeddwn i'n ei fwynhau fwyaf am fy swydd oedd gweithio gyda phobl ifanc a'u haddysgu nhw, yn hytrach na dim ond y gerddoriaeth ei hun.

"Penderfynais ei bod hi'n hen bryd mynd amdani a hyfforddi i fod yn athrawes gymwysedig – ond pan edrychais ar fy opsiynau ychydig flynyddoedd yn ôl, doedd dim ateb addas ar gael. Ar y pryd doeddwn i ddim yn gallu fforddio gadael fy swydd i fynd yn ôl i'r brifysgol am flwyddyn i gwblhau cwrs TAR traddodiadol, a doeddwn i ddim yn gallu ymrwymo i'r profiad dysgu llawn-amser hwnnw oherwydd roedd gen i deulu ifanc i ofalu amdano."

**Efallai bod Beth wedi gorfod anghofio am ei breuddwyd o addysgu am ychydig – ond aeth e ddim yn angof yn gyfangwbl. Felly pan gafodd rywfaint o amser ychwanegol i ddechrau ymchwilio i addysgu eto yn ystod cyfnod clo COVID-19, roedd hi'n gyffrous iawn o ddarganfod y cyrsiau newydd sydd ar gael trwy'r Brifysgol Agored.**

"Roedd cael yr amser hwnnw i feddwl am fy ngyrfa yn ystod y cyfnod clo a threulio amser yn ymchwilio yn amseru perffaith i mi gan fy mod wedi cael cyfle i ddod o hyd i opsiynau hyfforddi hyblyg newydd y Brifysgol Agored. Roeddwn wrth fy modd wrth feddwl y gallwn fod yn ôl ar y trywydd iawn i addysgu!

"Mae'r ysgol lle dwi'n dysgu ar hyn o bryd wedi cynnig fy noddi i gwblhau'r llwybr cyflogedig rhan-amser, sy'n wych oherwydd mae'n golygu fy mod eisoes yn adnabod yr ysgol, y staff a'r plant a dwi'n credu y bydd hynny'n fy helpu i deimlo'n llawer mwy cyfforddus a hyderus yn ystod fy hyfforddiant.

"Mae gallu ennill cyflog tra mod i'n hyfforddi, a dysgu o bell yn hytrach na gorfod bod yn gorfforol yn y brifysgol, yn union beth sydd ei angen arna'i i allu cymryd y cam hwn."

**Nawr ei bod hi'n barod i ddechrau ei chwrs gyda'r Brifysgol Agored yn y flwyddyn ysgol newydd, all Beth ddim aros i ddechrau gwireddu'r uchelgais sydd wedi bod ganddi ers cymaint o flynyddoedd.**

"Dwi'n edrych ymlaen yn eiddgar at fod yn rhan o gymuned yr ysgol, oherwydd y teimlad hwnnw yw un o'r pethau dwi'n ei fwynhau fwyaf am fod yn yr ysgol gyda'r plant. Dwi hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at weithio o fewn y cwricwlwm newydd yng Nghymru oherwydd fy nghefndir creadigol mewn cerddoriaeth, a dwi'n credu y bydd hynny yn fy ngalluogi i ddefnyddio fy nghreadigrwydd fel rhan ganolog o'm gwaith addysgu.

"Dwi wir yn croesawu'r llwybrau newydd hyn at addysgu – dydw i ddim yn gwybod sut y byddwn i wedi gallu dilyn fy uchelgais i addysgu hebddyn nhw. Maen nhw wedi golygu fy mod nawr yn gallu dechrau'r bennod nesaf yn fy mywyd fel athrawes gymwysedig o'r diwedd, a dwi mor gyffrous i ddechrau!"

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru